OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1096 (Cy. 189) (C. 69)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 4) 2023

*Gwnaed - - - - 16 Hydref 2023*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 88(3)(b) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 4) 2023.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 18 Hydref 2023

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 18 Hydref 2023—

(a) adran 65 (gofynion sy'n ymwneud â chasglu ar wahân etc. wastraff),

(b) adran 67 (pŵer i wahardd neu reoleiddio gwaredu gwastraff drwy losgi),

(c) adran 68 (sancsiynau sifil),

(d) adran 69(5) (rheoliadau), ac

(e) adran 70 (mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau).

### Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2024

**3.** Y diwrnod penodedig i adran 66 (gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos) o'r Ddeddf ddod i rym yw 6 Ebrill 2024.

(**1**) 2016 dccc 3.

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

16 Hydref 2023

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r pedwerydd gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o Ran 4 (casglu a gwaredu gwastraff) y Ddeddf ar 18 Hydref 2023—

(a) adran 65 (gofynion sy'n ymwneud â chasglu ar wahân etc. wastraff),

(b) adran 67 (pŵer i wahardd neu reoleiddio gwaredu gwastraff drwy losgi),

(c) adran 68 (sancsiynau sifil),

(d) adran 69(5) (rheoliadau), ac

(e) adran 70 (mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau).

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn adran 66 (gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos) o'r Ddeddf i rym ar 6 Ebrill 2024.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| ***Y Ddarpariaeth*** | ***Y Dyddiad Cychwyn*** | ***Rhif O.S.*** |
|---|---|---|
| Adran 76 | 1 Ebrill 2017 | O.S. 2017/504 (Cy. 104) |
| Adrannau 77 i 79 i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau | 24 Chwefror 2017 | O.S. 2017/152 (Cy. 44) |
| Adrannau 77 i 79 ac eithrio at ddiben gwneud rheoliadau | 1 Ebrill 2017 | O.S. 2017/504 (Cy. 104) |
| Adran 80 | 1 Ebrill 2017 | O.S. 2017/504 (Cy. 104) |
| Adran 81 | 14 Gorffennaf 2017 | O.S. 2017/714 (Cy. 171) |